



Ymgynghoriad Agored

Dogfen Ymgynghori Materion yn Ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda

Rydym yn ceisio eich barn ar ddiwygiadau i'r canllawiau statudol ar Faterion yn Ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda.

Dydd Cau'r Ymgynghoriad: 1 Tachwedd 2021

Diben yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad yw ceisio eich barn ar y diwygiadau i'r canllawiau statudol ar Faterion yn Ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda.

Cefndir

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ceisio barn ar ddiwygiadau arfaethedig i Ganllawiau'r Ombwdsmon ar arfer Gweinydd Da. Mae Adran 34 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 yn grymuso OGCC i gyhoeddi canllawiau o'r fath. Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n dod o fewn gylch gwaith OGCC ystyried canllawiau OGCC wrth gyflawni eu swyddogaethau. Wrth ymchwilio i gwynion, gall OGCC ystyried i ba raddau y mae corff cyhoeddus wedi cydymffurfio â Chanllawiau OGCC ar arfer Gweinyddu Da wrth wneud penderfyniadau.

Y Canllawiau cyfredol yw'r [Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda](#). Bwriadwn rannu'r Canllawiau yn 2 gyhoeddiad ar wahân; y "[Egwyddorion Gweinyddu Da](#)" a "[Rheoli Cofnodion yn Dda](#)". Trwy rannu'r Canllawiau, ein nod yw darparu egwyddorion cyffredinol o ran arfer gweinyddu da a rhoi cyngor penodol ar wahân ar arfer gweinyddu da mewn perthynas â rheoli cofnodion i gyrff cyhoeddus ac achwynwyr. Mae'r ddogfen ymgynghori hwn yn cyfeirio at ein canllawiau arfaethedig ar Faterion yn Ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda.

Y canllawiau arfaethedig ar Faterion yn Ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda

Nod y canllaw hwn yw dangos pwysigrwydd cadw cofnodion o ansawdd da ac egluro pam mae diwylliant o gadw cofnodion da yn hanfodol i sector cyhoeddus ymatebol. Ffurfiwyd ei gynnwys o'n profiad o ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau a gynhaliwyd dros nifer o flynyddoedd. [Gellir gweld y canllawiau drafft ar Faterion yn Ymwneud â Rheoli Cofnodion yn Dda yma](#).

Gwyddom fod y gwaith o ddarparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yn un brysur a heriol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad yw llawer o sefydliadau yn gwneud yr arfer o gadw cofnodion yn dda yn flaenoriaeth.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cadw cofnodion yn dda. Mae cofnodion yn darparu tystiolaeth o weithgaredd; gallant helpu i egluro pam y gwnaed penderfyniad, pwy a'i gwnaeth a phryd oedd hynny. Maent yn angenrheidiol i greu hyder mewn unrhyw

broes benderfynu, i hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder, ac i alluogi eraill i wirio'r hyn a wnaed. Felly, mae cadw cofnodion yn dda yn hanfodol er cof corfforaethol.

Mae rheoli cofnodion yn dda hefyd yn helpu awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio yn llawn â'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth hawliau gwybodaeth.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. A yw'r newid yn y defnydd o 'Negeseuon Allweddol' yn hytrach nag 'Egwyddorion' yn ddefnyddiol?
2. A yw disgwyliadau rheoli cofnodion yn dda a nodir yn y 'Negeseuon Allweddol' yn glir ac yn hawdd eu deall?
3. A fydd y negeseuon allweddol yn eich helpu i reoli eich cofnodion yn effeithiol wrth ddarparu eich gwasanaethau ac a yw lefel y manylder yn ddigon i'ch helpu i'w rhoi ar waith?

Os nad ydynt, pa newidiadau fydddech yn eu hawgrymu?

4. A yw cynnwys astudiaethau achos i dynnu sylw at effaith rheoli cofnodion yn wael ar sefydliadau a dinasyddion yn ddefnyddiol?
5. Pa effeithiau y gallai'r canllawiau eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sut y gellid hybu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Canllawiau Rheoli Cofnodion yn Dda a neu faterion cysylltiedig yr hoffech eu rhannu?

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich ymateb erbyn hanner nos **1 Tachwedd 2021** trwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwch ein [ffurflen ar-lein](#)
- Lawrlwythwch, llenwch ein [ffurflen ar-lein](#) ac anfonwch y ffurflen at cyfathrebu@ombwdsmon.cymru
- Lawrlwythwch, llenwch ein [ffurflen ar-lein](#) a'i phostio at:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed
CF35 5LJ

Os oes arnoch angen y ddogfen mewn fformat arall, [cysylltwch â ni](#).

Hysbysiad Preifatrwydd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- Yr hawl i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch a'r hawl i'w gyrchu
- Yr hawl i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data
- Yr hawl (mewn amgylchiadau penodol) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl (mewn amgylchiadau penodol) i 'ddileu' eich data
- Yr hawl (mewn amgylchiadau penodol) i hygludedd data
- Yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Efallai y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, dywedwch wrthym.

Gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol](#) am ragor o fanylion am y wybodaeth y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei chadw a'i defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau](#) ynghylch sut ydym yn defnyddio eich data ar gyfer ymgynghoriadau.